



Annwyl Cwsmer

Swyddfa'r Post® Dinas Caerdydd
45-46 Arcêd y Frenhines, Stryd y Frenhines, Caerdydd, CF10 2BY

Ymgynghoriad cyhoeddus lleol

Rwyf yn ysgrifennu atoch i ddweud ein bod yn bwriadu symud Swyddfa'r Post Dinas Caerdydd i leoliad newydd - WHSmith, 83-85 Stryd y Frenhines, Caerdydd, CF10 2NX a'i henw fydd Swyddfa'r Post Caerdydd. Os bydd y gangen yn symud, fe'i rhedir gan WHSmith High Street Cyf, gydag oriau agor hirach gan gynnwys dydd Sul.

Pam ein bod yn bwriadu symud y gangen?

Mae symud y gangen yn rhan o'r moderneiddio parhaus a wnawn ar ein rhwydwaith o ganghennau. Credwn mai'r ffordd fwyaf effeithiol o ddiogelu hyfywedd hirdymor gwasanaethau Swyddfa'r Post yng Nghaerdydd yw drwy bartner manwerthu a ddewiswyd yn ofalus ac rydym yn hyderus mai ein cynllun ni yw'r ffordd orau o ddiogelu gwasanaethau i'r gymuned am flynyddoedd lawer. Gweithredir y rhan fwyaf o ddigon o'n 11,600 cangen Swyddfa'r Post, boed bach neu fawr, yn y ffordd hon gyda phartneriaid manwerthu a chredwn mai dyma'r dull gorau ar gyfer cadw Swyddfeydd Post yn y prif leoliadau siopa ac yng nghanol cymunedau lle maent yn chwarae rhan bwysig yn yr economi leol.

Ochr yn ochr â moderneiddio ein rhwydwaith o ganghennau, rydym yn parhau i ddatblygu ein gwasanaethau er mwyn eu cadw'n berthnasol i'n cwsmeriaid. Yn ogystal â phost traddodiadol a gwasanaethau eraill, mae rhwydwaith Swyddfa'r Post heddiw yn darparu ar gyfer casglu a dychwelyd eitemau a brynir ar-lein, yn cynnig gwasanaeth 'clicio a chasglu' ar gyfer arian tramor sydd ar gael mewn dros 3,500 cangen a bancio dyddiol ar gyfer y mwyafrif o gwsmeriaid banciau'r DU - gall 99 y cant o gwsmeriaid bancio personol y DU a 95 y cant o gwsmeriaid bancio busnes gyflawni bancio dyddiol yn awr yn unrhyw un o'n ganghennau.

Byddai ystod eang o wasanaethau yn dal i fod ar gael yn y gangen ac eithrio peiriant arian. Mae'r peiriant arian agosaf tua 1.4 milltir i ffwrdd yn Swyddfa'r Post Albany Road, 47-49 Albany Road, Caerdydd, CF24 3YX. Mae pob cangen Swyddfa'r Post yn cynnig mynediad am ddim i arian parod ar gyfer y rhan fwyaf o fanciau'r stryd fawr a bydd cwsmeriaid yn medru defnyddio eu cerdyn debyd i godi arian wrth y cownter yn y gangen newydd a hynny yn ystod oriau agor hirach.

Ynghylch ein partner manwerthu

Mae WHSmith yn un o'r gwerthwyr llyfrau, nwyddau ysgrifennu a phapurau newydd mwyaf yn y DU gyda mwy na 1,400 o siopau, gyda chyrhaeddiad eang a phresenoldeb ar bron pob stryd fawr o bwys yn y DU. Bu WHSmith yn gweithredu Swyddfeydd Post yn llwyddiannus o fewn ei siopau ers 2007 ac ar hyn o bryd mae ganddo dros 130 o ganghennau. Trwy gydol y cyfnod hir hwn maent wedi ein bodloni eu bod yn medru rhedeg y gangen yng Nghaerdydd yn llwyddiannus drwy ddangos eu bod yn medru cynnig gwasanaeth o safon uchel i gwsmeriaid gyda staff hyfforddedig yn hybu cynhyrchion a gwasanaethau mewn awyrgylch modern.

Cangen newydd Swyddfa'r Post Caerdydd

Mae dwy fynedfa i'r siop ac mae mynediad gwastad i'r ddwy. Mae drysau awtomatig yn y brif fynedfa a drysau dwbl â llaw yn yr ail fynedfa. Mae gennym safonau llym sy'n sicrhau mynediad da i'n holl gwsmeriaid ac mae ein cynlluniau ar gyfer y gangen newydd yn cynnwys cownteri isel, padiau PIN a dolen glyw.

Bydd arwyddion cyfarwyddol o ddrws y dynedfa drwodd i'r Swyddfa Bost newydd a gynhwysir o fewn ardal benodedig yng nghefn y siop ar y dde. Bydd chwe man gwasanaethu, nifer a seiliwyd ar lefelau busnes presennol a'r lefelau a ragwelir; bydd pedwar safle cynllun-agored a dau safle traddodiadol gyda sgrîn a fydd hefyd yn cynnig gwasanaethau arian teithio. Defnyddir safleoedd cynllun-agored yn llwyddiannus ar draws rhwydwaith Swyddfa'r Post yn lle'r safleoedd mwy traddodiadol a bydd sgrîn warchodol ond ei bod yn is sydd yn helpu i gynnig gwasanaeth mwy personol a sgysiau preifat pan fo angen hynny. At hyn, bydd pum ciosg hunan-wasanaeth ar gyfer gweithrediadau post gan gynnwys dychweliadau siopa gartref, E-Adlenwadau ac ystod o daliadau bil.

Beth nesaf?

Yn awr, rydym yn dechrau cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol a buasem yn croesau eich barn am y cynigiad. Penderfyniad masnachol Swyddfa'r Post Cyf yw trosglwyddo rheoli'r gangen i bartner manwerthu yn hytrach na'i rheoli'n uniongyrchol ein hunain ac nid ydym yn ceisio adborth ar yr agwedd hon o'r newid. Fodd bynnag, rydym yn croesawu adborth a sylwadau a allai helpu i lywio ein cynlluniau, yn enwedig yn y meysydd canlynol:

- Pa mor hawdd yw cyrraedd y lleoliad arfaethedig newydd?
- A yw'r eiddo newydd yn hawdd i chi fynd iddo ac a yw'n hawdd ei gyrraedd unwaith yr ewch i mewn?
- A oes unrhyw faterion cymunedol lleol y gallai'r cynigiad effeithio arnynt neu a allai effeithio ar y cynigiad?
- Pe bai'r gangen yn symud a oes unrhyw beth y gallem ei wneud i'w gwneud hi'n haws i gwsmeriaid?

Os ydych yn gynrychiolydd lleol byddai'r ddefnyddiol pe medrech rannu'r wybodaeth hon gyda grwpiau a sefydliadau lleol y gwyddoch amdanynt o fewn eich cymuned, er enghraifft ar hysbysfyrddau, elusennau lleol a meddygfeydd, i helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr i ddeall beth sydd yn digwydd i Swyddfa'r Post yng Nghaerdydd. Os hoffech gyflenwad o'r poster hyn rhwch wybod i ni os gwelwch yn dda.

Medrwch rannu'ch sylwadau am y newid arfaethedig drwy holidaur arlein hawdd a hwylus yn postofficeviews.co.uk. Pan ewch i'r wefan medrwch ddefnyddio'r ffwythiant chwilio i ddod o hyd i'r gangen. Y cod unigryw ar gyfer y gangen hon yw **026611**.

postofficeviews.co.uk

Sut i gysylltu â ni:

-  postofficeviews.co.uk
-  comments@postoffice.co.uk
-  Llinell Gymorth i Gwsmeriaid:
03457 22 33 44
Ffôn Testun: 03457 22 33 55
-  RHADBOST Your Comments
Sylwch, os gwelwch yn dda, mai hwn yw'r cyfeiriad llawn i'w ddefnyddio ac nad oes angen manylion cyfeiriad eraill.

Eisiau rhoi eich barn i ni yn y fan a'r lle – Sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa ap.



Sylwch y bydd eitemau a anfonir gyda Rhadbost yn cymryd 2 ddiwrnod gwaith i gyrraedd ac nid yw hyn yn cynnwys dydd Sadwrn na dydd Sul. Felly, gadewch ddigon o amser os gwelwch yn dda i'ch sylwadau gyrraedd cyn diwedd y cyfnod ymgynghori gan na fedrwn ystyried adborth sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiau cau.

Dyddiadau'r Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol:

Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dechrau	31 Hydref 2018
Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn gorffen	12 Rhagfyr 2018
Mis arfaethedig y newid	Mawrth 2019

Rydym yn ymroddedig i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Gwnawn hyn yn unol â'r Egwyddorion Ymgysylltu Cymunedol a gytunwyd gyda Chyngor Ar Bopeth, Citizens Advice Scotland a'r General Consumer Council ar gyfer Gogledd Iwerddon - y cyrff gwarchod annibynnol i ddefnyddwyr. Mae copi ar ddiwedd y llythyr hwn.

Diolch am ystyried ein cynigiad. Ystyrir pob gwybodaeth a dderbyniwn wrth i ni gwblhau ein cynlluniau ar gyfer y gangen newydd. Rwyf wedi amgáu taflen wybodaeth sydd yn cynnig mwy o fanylion am y lleoliad newydd.

Yn gywir



Roger Gale
Cyfarwyddwr Rhwydwaith & Gwerthu
Swyddfa'r Post Cyfyngedig

Taflen wybodaeth Swyddfa'r Post Dinas Caerdydd						
	Lleoliad presennol			Lleoliad arfaethedig newydd		
Cyfeiriad	45-46 Arcêd y Frenhines Stryd y Frenhines Caerdydd CF10 2BY			WHSmith 83-85 Stryd y Frenhines Caerdydd CF10 2NX		
Oriau agor Swyddfa'r Post	Llun	09:00 – 17:30		Llun	09:00 – 17:30	
	Mawrth	09:30 – 17:30		Mawrth	09:00 – 17:30	
	Mercher	09:00 – 17:30		Mercher	09:00 – 17:30	
	Iau	09:00 – 17:30		Iau	09:00 – 17:30	
	Gwener	09:00 – 17:30		Gwener	09:00 – 17:30	
	Sadwrn	09:00 – 17:30		Sadwrn	09:00 – 17:30	
	Sul	Ar gau		Sul	11:00 – 15:00	
Cynhyrchion & Gwasanaethau	Byddai'r un ystod eang o gynhyrchion a gwasanaethau yn dal i fod ar gael ac eithrio peiriant arian.					
Safleoedd gwasanaeth	Byddai chwe man gwasanaethu, dau gyda sgrîn a phedwar yn gynllun-agored. Seiliwyd nifer y mannau gwasanaethu ar lefelau busnes presennol a'r lefelau a ragwelir.					
Cyfleusterau ychwanegol	Pum ciosg hunanwasanaeth ar gyfer gweithrediadau post gan gynnwys dychweliadau siopa gartref, E-Adlenwadau ac ystol o daliadau bil.					
Mynediad a chyfleusterau	Mae dwy fynedfa i'r siop ac mae mynediad gwastad i'r ddwy. Mae drysau awtomatig yn y brif fynedfa a drysau dwbl â llaw yn yr ail fynedfa. Byddai cownteri isel, desg ysgrifennu isel a dolenni clyw ar gael. Parcio Mae maes parcio talu-wrth-ymadael yng Nghanolfan Siopa Capitol gyda 388 gofod a chyda mannau parcio anabl dynodeig. Mae'r maes parcio tua 220 metr o'r eiddo arfaethedig. Bysiau Mae cludiant cyhoeddus ar gael i'r cyffiniau ac oddi yno.					
Pellter	Tua 320 metr o'r gangen bresennol ar hyd tirwedd amrywiol.					
Manwerthu	Cardiau a deunyddiau ysgrifennu					
Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dechrau	31 Hydref 2018					
Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn gorffen	12 Rhagfyr 2018					
Mis arfaethedig y newid	Mawrth 2019					

I gael y wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, mewn print bras, sain neu braille ffoniwch 03452 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.

Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynnir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau Agor
- Cau dros dro¹/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n gysylltiedig â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n priodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

Bydd yn **Ymgysylltu** – pan fyddwn yn ceisio adborth am benderfyniad a wnaed ynghylch:

- Ailagor cangen a gaewyd dros dro mewn lleoliad newydd (os yw cangen wedi bod ar gau am fwy na thri mis)
- Masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol yn ei safle cyfredol

Er y gwnaed y penderfyniad i fwrw ymlaen eisoes, byddwn yn croesawu awgrymiadau ynghylch agweddau penodol ar y newid, megis trefniadau mynediad a'r dyluniad mewnol. Byddwn yn rhoi pedair wythnos o rybudd neu, os yw amgylchiadau esgusodol yn atal hyn, byddwn yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl.

Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn gosod poster yn y gangen ac yn darparu gwybodaeth ar-lein. Byddwn yn cysylltu â chynrychiolwyr etholedig lleol², y Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol³, i roi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau neu drefniadau ynghylch mynediad i'r gangen. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.). Byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymgysylltiad ar-lein ac yn y gangen, gan roi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb i bob un ac unrhyw newidiadau a wnaed i'n cynlluniau gwreiddiol.

Bydd yn **Ymgynghori** – pan fyddwn yn chwilio am ymateb i argymhellion cyn gwneud penderfyniad ynghylch:

- Cau cangen Swyddfa'r Post⁴ yn barhaol
- Adleoli cangen Swyddfa'r Post yn barhaol (gan gynnwys masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol i safle newydd)

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros gyfnod o chwe wythnos⁵ er mwyn rhoi gwybod i gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol am yr argymhelliad. Bydd yr wybodaeth hon ar gael hefyd ar-lein ac ar gyfer cangen â Rheolaeth Uniongyrchol cyflwynir datganiad newyddion i'r cyfryngau lleol. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.).

Bydd yr ymgynghoriad yn golygu gofyn cwestiynau penodol pan fyddwn yn dymuno cael adborth ynghylch mynediad i gwasanaethau Swyddfa'r Post a byddwn yn cadarnhau dyddiad y newid os taw'r penderfyniad yw i fwrw ymlaen. Byddwn yn rhoi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ogystal a mynediad i'r gangen newydd a'r tu mewn iddi.

Rydym yn croesawu pob adborth ac mae'r holl ffactorau isod yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniad; disgwylir y gwneir y penderfyniad hwnnw o fewn pedair wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad:

- Mynediad cwsmeriaid i mewn i a'r tu mewn i'r gangen /canghennau newydd neu amgen, gydag ystyriaeth benodol i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed
- Unrhyw faterion cymunedol lleol a allai gael eu heffeithio gan yr argymhelliad neu ddylanwadu arno

Ar ddiwedd y broses ymgynghorol byddwn yn ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad (os yw hynny'n ymarferol) er mwyn cadarnhau ein penderfyniad a rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un. Bydd yr wybodaeth ar gael ar-lein ac yn y gangen (pan fo hynny'n bosibl).

Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hymateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw weithredu ynghylch y gwyn).

postofficeviews. co.uk.

comments@postoffice.co.uk

FREEPOST Your Comments

Ffoniwch: 03452 66 01 15

Ffôn Testun: 03457 22 33 55

¹ Rhoddwn ddiweddariad i gynrychiolwyr etholedig lleol os nad yw statws y gangen sydd ar gau dros dro wedi newid ar ôl 12 mis.

² Mae cynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Cynulliad Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf.

³ Yr elusennau dethol yw Cyngor ar Bopeth, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Anogir y sawl y cyfeirir atynt yn 2 a 3 uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.

⁴ Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darpariaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

⁵ Os yw'r ymgynghoriad yn cynnwys mwy na phedair wythnos ym mis Gorffennaf yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon neu fwy na phedair wythnos ym mis Awst yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn estyn y cyfnod am un wythnos galendr. Ni fyddwn yn dechrau unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus lleol yn ystod y bythefnos sydd yn cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.